Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr

Y myth Mae HSE yn gwahardd teis ysgol traddodiadol

Y gwirionedd Fel y gwnaethom ei ddweud ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ddiwethaf, ychydig o rieni a fyddai'n ystyried gwisgo teis yn yr ysgol fel problem ddiogelwch. Mae miliynau o blant wedi bod yn gwisgo teis fel rhan o'u gwisg ysgol ers blynyddoedd heb unrhyw broblemau.

Mae'n gwneud synnwyr cymryd rhagofalon syml fel tynnu'r tei wrth weithio yn y labordy neu gyda pheiriannau. Ond os mai ymladd ymysg y plant sy'n peri pryder mewn gwirionedd, er y gall teis â chlipiau helpu, disgyblaeth yw'r broblem go iawn. Felly nid yw HSE yn gwahardd teis ysgol – mater i ysgolion yw gwneud eu penderfyniadau eu hunain am wisg ysgol.